


# Chwaraeon RhCT

# Nyla

## Ysgol Gynradd Llanhari

Mae Nyla yn rhan o grŵp gwych o Lysgenhadon Ifainc yn Ysgol Gynradd Llanhari. Mae hi'n chwaraewr tîm gwych ac yn arweinydd naturiol. Mae hi'n barchus, yn gefnogol ac yn ofalgar tuag at bawb mae'n gweithio gyda nhw, ac mae hi bob amser yn gwneud ei gorau glas. Ers dod yn llysgennad, mae Nyla wedi rhoi ei dysgu ar waith mewn prosiectau a gweithgareddau yn ei hysgol.

“Yn fy rôl fel llysgennad, rydw i wedi bod yn arwain llawer o weithgareddau chwaraeon, yn enwedig ar yr iard. Rydw i wedi trefnu amrywiaeth o gemau tîm a gweithgareddau i eraill eu chwarae. Rydw i wedi bod yn gweithio gyda dosbarthiadau iau yn yr ysgol i'w helpu i wella eu lefelau ffitrwydd ac rydw i hefyd wedi rhoi cynnig ar arwain gwersi Addysg Gorfforol yn fy nosbarth. Rydw i’n helpu fel arweinydd maes chwarae, gan ddysgu’r plant iau sut i chwarae gemau a sut i ddefnyddio’r offer yn ddiogel.”

**LLYSGENNAD IFANC Y MIS - CHWEFROR 2025**

Chwaraeon RhCT Sport RCT

sportwales chwaraeoncymru

YOUTH SPORT TRUST

RHONDDA CYNON TAF